



The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

Deddf Tiroedd Comin 2006 Adran 16

**Nodiadau ar gyfer llenwi ffurflen gais i
ddatgofrestru a chyfnewid tiroedd
comin neu feysydd tref neu bentref**



INVESTOR IN PEOPLE

Mai 2013



Nodiadau ar gyfer llenwi ffurflen gais caniatâd gwaith
adeiladu ar dir comin

Cyflwyniad 1

Adran 16 Deddf Tiroedd Comin 2006 1

Cwynion 10
Adolygiad Barnwrol
Yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus

Atodiad A - – Ffurf ar Hysbysiad ar gyfer hysbysebu eich
cynigion

Atodiad B -

Enghraifft o Hysbysiad (**fel eglureb** yn unig)

Atodiad C - ffurf ar lythyr i'w anfon at ymgynghoreion yn
amgáu copi o'r hysbysiad drafft

Atodiad D - ffurf ar lythyr i chi ei anfon atom yn
cadarnhau y bodlonwyd y gofynion hysbysebu

Atodiad E - *Deddf Tiroedd Comin 2006 (c.26)*
Rhan 3 - Gwaith

Nodiadau ar gyfer gwneud cais am ganiatâd gwaith adeiladu ar dir comin

Sylwer: Mae'r wybodaeth a geir yn yr arweiniad hwn yn perthyn i weithdrefnau yng Nghymru yn unig.

Roedd y wybodaeth yn y daflen hon yn gywir ar adeg ei chyhoeddi, ond nid oes iddi unrhyw statws cyfreithiol.

Nodiadau ar gyfer llenwi cais i ddatgofrestru a chyfnewid tir comin

Ar 1 Ebrill 2013, rhoddodd Cyngor Cefn Gwlad Cymru y gorau i weithredu a throsglwyddwyd eu swyddogaethau i Cyfoeth Naturiol Cymru.

1. Cyflwyniad

Nod y nodiadau hyn yw eich helpu chi os ydych yn bwriadu gwneud cais i ddatgofrestru a chyfnewid tir comin neu feysydd tref neu feysydd pentref. Mae cyfeiriadau yn y nodiadau hyn trwyddynt draw at 'Dir Comin' yr un mor berthnasol i 'Feysydd Tref neu Feysydd Pentref'.

Cyn mynd ati i ddarllen y nodiadau hyn ac i llenwi'r ffurflen gais, a fyddech cystal â darllen y nodyn 'Arweiniad ar Dir Comin – Trosolwg Cyffredinol'. Mae'r papur hwn yn esbonio'r materion y dylech eu hystyried cyn penderfynu gwneud cais o dan adran 16, a'r camau y dylech eu cymryd cyn gwneud cais. Mae adran 16 Deddf Tiroedd Comin 2006 yn berthnasol i dir comin neu feysydd tref neu feysydd pentref sydd wedi'u cofrestru o dan Ddeddf Cofrestru Tiroedd Comin 1965 yn unig.

Mae Gweinidogion Cymru wedi penodi'r Arolygiaeth Gynllunio i fod yn gyfrifol am brosesu ceisiadau adran 16 (Atodiad E) ar eu rhan hyd at adeg argymell p'un a ddylid cymeradwyo cais. Bydd Swyddogion Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am y penderfyniad terfynol mewn perthynas â chais.

Mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn asiantaeth Llywodraeth Cymru a'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol. Ein prif waith yw prosesu apeliadau cynllunio a gorfodi a chynnal ymchwiliadau i gynlluniau datblygu lleol. Deliw'n hefyd ag amrywiaeth eang o waith achos apêl arall gan gynnwys apeliadau amgylcheddol a gorchmynion hawliau tramwy. Deliw'n ag apeliadau yng Nghymru o'n swyddfa yng Nghaerdydd ac apeliadau yn Lloegr o'n swyddfa ym Mryste.

2. Adran 16 Deddf Tiroedd Comin 2006

Cyn gwneud gorchymyn cyfnewid, mae'n rhaid i Weinidogion Cymru ystyried:

- (a) buddiannau'r bobl sydd â hawliau mewn perthynas â'r tir i'w ryddhau, neu sy'n ei feddiannau (ac yn benodol, unigolion sy'n arfer hawliau comin drosto);
- (b) buddiannau'r gymdogaeth;
- (c) buddiant y cyhoedd;
- (ch) ac unrhyw fater arall a ystyrir ei fod yn berthnasol.

Mewn achosion lle nad yw'r tir i'w ryddhau yn fwy na 200 metr sgwâr, a lle na chynigir unrhyw dir yn ei le mae'n rhaid i Weinidogion Cymru ystyried i ba raddau y mae absenoldeb tir amnewid yn niweidiol i'r buddiannau a nodir yn (a) i (c) uchod, yn unol â'r meini prawf uchod. Mae "Buddiant y Cyhoedd" yn cynnwys buddiant y cyhoedd o ran gwarchod natur; diogelu'r dirwedd; diogelu hawliau mynediad cyhoeddus i unrhyw ardal o dir; a diogelu gweddillion archeolegol a nodweddion o ddiddordeb hanesyddol.

3. Llenwi eich ffurflen gais

ADRAN A – Y tir comin (neu faes tref neu faes pentref) i'w ddatgofrestru – y "tir i'w ryddhau"

Nodyn 1

Mae'n rhaid mai'r ymgeisydd yw perchennog y tir i'w ryddhau. Yn achos tir â chydberchenogion, mae'n rhaid i'r holl gydberchenogion lofnodi'r cais.

Os nad yw perchennog y tir i'w ryddhau yn berchen ar y tir amnewid hefyd, yna mae'n rhaid i berchennog/berchenogion y tir amnewid lenwi'r cais hefyd (yn Adran B2 y ffurflen gais) gan gydlofnodi'r cais (yn Adran L).

Dylai ymgeiswyr roi prawf perchenogaeth. Lle y bo'n bosibl, dylid rhoi copïau swyddfa o'r eiddo fel y'i cofrestrwyd yng Nghofrestrfa Tir Ei Mawrhydi. Os nad yw'r eiddo wedi'i gofrestru, dylid rhoi prawf arall o berchenogaeth.

Nodyn 2

Cyn gwneud cais, dylech wirio gyda'r **awdurdod cofrestru tiroedd comin** yn eich ardal (**fel ardal y fwrdeistref, y fwrdeistref sirol neu'r cyngor sir**) fod y tir wedi'i gofrestru fel tir comin o dan Ddeddf Cofrestru Tiroedd Comin 1965. Os yw'r tir wedi'i gofrestru fel tir comin, dylech anfon copïau o'r gofrestr atom (a gedwir **gan yr awdurdod cofrestru tiroedd comin**) ynghyd â'ch cais. Bydd hon yn cynnwys manylion am dir, hawliau a pherchenogaeth a map y gofrestr.

Mae'n bosibl y bydd yr **awdurdod cofrestru tiroedd comin** yn cadw gwybodaeth arall a fydd yn eich helpu i lenwi gweddill y ffurflen hon.

Ni fydd y gofrestr tiroedd comin yn dangos i chi pa gominwyr sy'n weithredol, ond dylai eich ymgynghoriadau anffurfiol eu datgelu cyn dechrau llenwi'r ffurflen gais.

Nodyn 3

Bydd unrhyw ddogfennau y byddwch yn eu hanfon atom, gan gynnwys llythyrau gan unrhyw drydydd parti, ar gael i unrhyw barti â buddiant eu gweld, ar gais. Dylech sicrhau bod y partion perthnasol yn ymwybodol o hyn.

Nodyn 4

Mae'n bwysig eich bod yn rhoi gwybod i ni, yng Nghwestiwn 10, am unrhyw un sydd â buddiannau yn y tir i'w ryddhau neu am unrhyw un sy'n ei feddiannu. Mae adran 16(9) y Ddeddf yn datgan lle bo gan "ddeiliad perthnasol" neu "berchennog unrhyw dâl perthnasol" hawl cyfreithiol mewn perthynas â'r tir comin i'w gyfnewid (neu mewn perthynas ag unrhyw dir amnewid), yna mae'n rhaid i'r ymgeisydd/ymgeiswyr gael caniatâd yr unigolyn hwnnw cyn cyflwyno cais.

Mae "lesddeiliad perthnasol" yn golygu lesddeiliaid o dan brydles am dymor sy'n fwy na saith mlynedd o ddyddiad rhoi'r brydles.

Mae "tâl perthnasol" yn golygu:

- (a) mewn perthynas â thir sydd wedi'i gofrestru yn y gofrestr eiddo, tâl cofrestredig yn unol â Deddf Cofrestru Tir, neu
- (b) mewn perthynas â thir nad yw wedi'i gofrestru fel hynny, (i) tâl sydd wedi'i gofrestru o dan Ddeddf Pridiannau Tir 1972, neu (ii) forgais cyfreithiol, yn unol â Deddf Cyfraith Eiddo 1925, nad yw wedi'i gofrestru o dan Ddeddf Pridiannau Tir 1972.

Nodyn 5

Dylech roi sylw penodol i'r disgrifiadau mewn perthynas â'r tiroedd i'w cyfnewid, fel bod modd eu defnyddio'n sail i'r disgrifiadau yn yr hysbyseb ac yn y gorchymyn datgofrestru (os caiff un ei wneud yn y pen draw).

Dylai'r disgrifiadau fod yn ddigon manwl fel bod modd i rywun sy'n eu darllen adnabod yn hawdd y tiroedd dan sylw.

ADRAN B – Y tir i'w gyfnewid – y "tir amnewid"

Nodyn 6

Gweler Atodiad E y nodiadau hyn ar gyfer testun adran 16.

Os oes gan y tir i'w ryddhau o'r tir comin arwynebedd o fwy na 200 metr sgwâr, mae'n rhaid i chi gynnwys cynnig ar gyfer tir amnewid.

Os nad yw'r tir i'w ryddhau'n mesur mwy na 200 metr sgwâr, nid yw adran 16 yn eich gorfodi i gynnig tir amnewid. Fodd bynnag, wrth ystyried cais heb unrhyw ddarpariaeth ar gyfer tir amnewid, bydd Gweinidogion Cymru yn rhoi sylw penodol i ba raddau y byddai absenoldeb tir amnewid yn niweidiol i'r buddiannau a nodir yn adrannau 16(6)(a) i (c). Mae'n annhebygol y bydd ceisiadau heb unrhyw ddarpariaeth ar gyfer tir amnewid yn llwyddo oni bai bod amgylchiadau arbennig. Gallai'r amgylchiadau hyn gynnwys lle bo'r cais er budd y cyhoedd ac nad oes unrhyw bosibilrwydd ymarferol o ddod o hyd i dir amnewid.

Lle nad yw'r tir i'w ryddhau yn fwy na 200 metr sgwâr ac nad ydych yn bwriadu cynnig tir amnewid, dylech gyfiawnhau'n llawn pam nad ydych yn cynnig tir o'r fath. Dylai'r cyfiawnhad hwn gynnwys disgrifiadau o ddulliau gweithredu eraill sydd wedi'u hystyried, ac yn dangos, er enghraifft, pam nad oes unrhyw angen i gynnig tir amnewid.

Nodyn 7

Ni ddylai'r tir amnewid fod wedi'i gofrestru fel tir comin neu fel maes tref neu faes pentref eisoes (gweler adran 16(5)(b)) Deddf 2006, na bod yn destun hawl mynediad statudol.

Nodyn 8

Mae gan y cyhoedd hawl mynediad i bron pob darn o dir comin sydd wedi'i gofrestru (yn rhinwedd Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000), ac mae meysydd tref neu feysydd pentref yn destun mynediad gan drigolion lleol, yn ôl ei ddiffiniad. Ni fyddem yn disgwyl i'r stoc tir mynediad cyhoeddus leihau oherwydd cynnig tir amnewid a oedd eisoes yn destun rhyw fath o fynediad cyhoeddus. Gallai eithriad i'r dybiaeth hon gynnwys lle bo'r tir y bwriedir ei gyfnewid, er ei fod yn agored i fynediad cyhoeddus anstatudol, o dan fygythiad o gael ei ddatblygu ac y byddai ei gofrestru fel tir comin yn ei ddiogelu at y dyfodol yn ogystal â sicrhau mynediad cyhoeddus parhaol a statudol.

Nodyn 9

Cyfeiriwch at Nodyn 4 am esboniadau o "lesddeiliad perthnasol" a "thâl perthnasol".

Fel arfer, ni fyddwn yn disgwyl gweld y tir amnewid arfaethedig a oedd yn destun hawliau preifat a allai effeithio ar hawl terfynol y cyhoedd i ddefnyddio'r tir, yn y pen draw. Dylech ystyried pob hawl a allai fodoli. Er enghraifft, byddai hawliau saethu'n peryglu cyfle y cyhoedd i ddefnyddio'r tir.

ADRAN C – Trefniadau mynediad a nodweddion presennol y tiroedd

Nodyn 10

Os yw'r cyfnewid at ddiben darparu mynediad i gerbydau, tynnir eich sylw at ddyfarniad Tŷ'r Arglwyddi: Bakewell Management Limited (Ymatebwyr) yn erbyn Brandood ac eraill (Apelyddion) 2004 [2004] UKHL 14.

www.publications.parliament.uk/pa/ld200304/ldjudgmt/jd040401/bake-1.htm

Mae'n **bosibl** y bydd y dyfarniad hwn yn cynnig ateb i'r bobl hynny y mae'n rhaid iddynt yrru ar draws tir comin a thir arall i gyrraedd eu heiddo ond nad ydynt wedi gallu cael hawl cyfreithiol i wneud hynny, gynt. Sylwer bod meysydd tref a meysydd pentref wedi'u hamddiffyn gan ddeddfwriaeth amrywiol a allai wahardd gyrru cerbydau arnynt.

Nodyn 11

Lle y cynigir tir amnewid, nid oes angen iddo fod yn gyfagos â'r tir comin sy'n cynnig y tir i'w ryddhau – er y byddai hyn yn fwy hwylus. Dylai eich cynnig esbonio sut y caiff mynediad i'r tir amnewid ei ddarparu, ac os yw'r

tir amnewid yn gyfagos â'r tir comin sy'n cynnwys y tir i'w ryddhau, sut y câi ei ymgorffori yng ngweddill y tir comin.

Wrth ystyried nodweddion y terfynau presennol, rhowch fanylion am y rhai sy'n bodoli ar y tir i'w ryddhau a'r tir amnewid fel ei gilydd ac am unrhyw dir sy'n cyffinio â'r tir amnewid.

Nodyn 12

Mae'n hynod bwysig ystyried pa hawliau, hawddfreintiau neu lytheffeiriau cyfreithiol eraill sydd yn glwm wrth y tir amnewid arfaethedig, gan y gallai'r rhain effeithio ar ddefnyddio'r tir fel tir comin yn y dyfodol.

ADRAN D – Manylion am gyfnewid neu ddatgofrestru

Nodyn 13

Rhowch fanylion llawn am y rhesymau dros y cyfnewid arfaethedig a'r amgylchiadau perthnasol. Dylech hefyd fynd i'r afael â chwestiynau fel:

- Pa ddewisiadau a ydych wedi'u hystyried er mwyn cyflawni eich nodau a pham y gwnaethoch benderfynu ar y dewis hwn?
- A ystyriwyd unrhyw ddewisiadau nad oeddent yn cynnwys datgofrestru unrhyw dir comin, neu a oedd yn cynnwys datgofrestru ardal tir comin llai o faint?
- Pam y gwrthodwyd y rhain?

Rydym yn eich annog yn gryf i ymgynghori'n anffurfiol ar eich cynigion wrth i chi ddechrau eu datblygu. Gweler y nodyn 'Arweiniad ar Dir Comin – Trosolwg Cyffredinol' i gael arweiniad am ymgynghori anffurfiol, gan roi sylw penodol i'r adran *Pa gamau y dylwn eu cymryd cyn gwneud cais?*

Nodyn 14

Gweler y Cyflwyniad i'r Nodiadau hyn am ddisgrifiad o'r materion y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru eu hystyried wrth benderfynu ar gais o dan adran 16.

Nodyn 15

Mewn cais sy'n cynnwys mwy na dwy lain o dir, mae'n rhaid cymryd gofal i esbonio'r cyfnewid neu'r cyfnewidiadau sy'n cael eu hystyried.

ADRAN E – Dynodiadau

Nodyn 16

Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn gwybod p'un a yw'r dynodiadau hyn yn berthnasol i'r tir ai peidio.

Fe'ch cynghorir yn gryf i ymgynghori'n anffurfiol mewn perthynas â phob cynnig sy'n effeithio ar dir comin. Mae hyn yn arbennig o bwysig lle mae'r tir wedi'i ddynodi'n Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig hefyd gan fod SoDdGA yn destun eu hamddiffyniadau statudol arbennig eu hunain. Mae ystyriaethau tebyg yn berthnasol yn achos tir sydd wedi'i ddynodi fel Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA), Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA) neu Wlyptir sydd wedi'i restru yn unol â Chonfensiwn Ramsar.

Pan fo'r tir i'w ryddhau ar SoDdGA, ACA, AGA neu Wlyptir neu'n agos atynt, fe'ch cynghorir i drafod eich syniadau gyda Cyfoeth Naturiol Cymru yn gynnar iawn. Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn rhoi cyngor i chi ar unrhyw gyfyngiadau a gofynion a allai fod yn berthnasol i'r gweithrediadau rydych

yn bwriadu eu cyflawni ar y tir i'w ryddhau os caiff ei ddatgofrestru. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd yn un o'r cyrff y mae'n rhaid i chi ymgynghori â nhw pan gaiff cais adran 16 ei wneud, gan roi cyfle ffurfiol iddynt ysgrifennu atom gyda'u sylwadau o fewn 28 diwrnod.

Manylion cyswllt:

Cyfoeth Naturiol Cymru
Tŷ Cambria
29 Heol Casnewydd
Caerdydd
CF24 0TP

Ffôn: 0300 065 3000
Ffacs: 0300 065 3001
E-bost: yholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Nodyn 17

Mae gwybodaeth am henebion cofrestredig ar gael drwy gysylltu â Cadw;

Manylion cyswllt:

Cadw
Llywodraeth Cymru
Plas Carew
Uned 5/7 Cefn Coed
Parc Nantgarw
Caerdydd

Ffôn: 01443 336000
Ffacs: 01443 336001
E-bost: cadw@wales.gsi.gov.uk

ADRAN F – Tir comin cyfagos

Nodyn 18

Wrth benderfynu ar eich cais, byddwn yn ystyried unrhyw geisiadau blaenorol i ddadgofrestru unrhyw ran o'r tir comin. Byddwn hefyd yn ystyried yr effaith bosibl ar y cyfnewid arfaethedig ar y tir comin ei hun, ac ar bob darn o dir comin yn y cyffiniau.

ADRAN G – Mynediad cyhoeddus

Nodyn 19

Gweler y gofrestr tiroedd comin neu'r **awdurdod cofrestru** am y wybodaeth a ofynnir amdano yng nghwestiynau 36 a 27.

Nodyn 20

Mae Adran 193 Deddf Cyfraith Eiddo 1925 yn rhoi hawl i'r cyhoedd gael mynediad at unrhyw dir comin at ddibenion mwyniant a hamdden sy'n gorwedd mewn ardal a oedd yn fwrdeistref neu'n ddosbarth trefol cyn 1 Ebrill 1974. Yn aml, caiff y rhain eu galw'n diroedd comin 'trefol'. Gellir rhoi Adran 193 ar waith yn wirfoddol hefyd yn achos tiroedd comin eraill ar ffurf Gweithred a wneir gan berchennog y tir.

Mae Gorchymyn Cyfyngu fel arfer yn cyfyngu ar natur neu amllder mynediad y cyhoedd i'r tir y mae adran 193 yn berthnasol iddo.

Nodyn 21

Er nad yw'n gysylltiedig yn uniongyrchol â'r cwestiynau yn Adran G, dylech fod yn ymwybodol bod Rhan 1 Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 wedi cyflwyno hawl mynediad cyhoeddus ar droed i bob darn o dir comin cofrestredig (lle nad oedd hawl mynediad eisoes yn berthnasol). Gall yr hawl hwn fod yn amodol ar rai eithriadau a chyfyngiadau.

ADRAN H – Cynlluniau rheoli a Deddfau lleol

Nodyn 22

Yn gyffredinol, os caiff gorchymyn datgofrestru ei wneud, bydd yn atal rhai "darpariaethau perthnasol" rhag bod yn berthnasol i'r tir i'w ryddhau, a bydd yn eu trosglwyddo i'r tir amnewid (gweler adran 17(6) y Ddeddf). Mae "Darpariaeth berthnasol" yn golygu darpariaeth a geir, neu sy'n cael ei gwneud yn unol â'r canlynol:

- (a) adran 193 Deddf Cyfraith Eiddo 1925;
- (b) Deddf o dan Ddeddf Tiroedd Comin 1876 yn cadarnhau gorchymyn dros dro Comisiynwyr Cau Tir;
- (c) cynllun o dan Ddeddf Tiroedd Comin 1899;
- (ch) adran 1 Deddf Tiroedd Comin 1908.

Os caiff gorchymyn datgofrestru ei wneud a bod angen i unrhyw drefniant arbennig gael ei wneud ynddo, yn eich tyb chi, dylech roi gwybod i ni ba effaith yn union rydych am i'r gorchymyn ei chael.

Os oes Deddf leol, dylech ddarllen ei thelerau'n ofalus gan sicrhau drosoch eich hun nad yw'n eich atal rhag gwneud cais i ddatgofrestru'r tir i'w ryddhau.

ADRAN I – Hysbysebu ac ymgynghori

Nodyn 23

Mae'n rhaid i chi hysbysebu eich cynnig o fewn 7 diwrnod o wneud y cais hwn, gan ganiatáu lleiafswm o 28 diwrnod i bobl ysgrifennu atom gyda'u sylwadau.

Mae'n rhaid i'r hysbyseb gael ei seilio ar ffurf yr hysbysiad yn **Atodiad A** (mae hysbysiad enghreifftiol yn **Atodiad B**).

Wrth lenwi'r hysbysiad:

- Yn yr atodlenni i'r hysbysiad, dylai'ch disgrifiad o'r tiroedd fod yn gywir ac yn ddigon manwl i ddarllenwyr allu adnabod y tiroedd yn hawdd ac i wybod p'un a ydynt am wrthwynebu neu gefnogi eich cais;
- Dylai'r cyfeiriad ar gyfer archwilio'r ffurflen gais a'r map fod yn hawdd i bobl sy'n bobl ger y tir comin ei gyrraedd. Yn aml, mae ymgeiswyr yn defnyddio llyfrgelloedd cyhoeddus, swyddfeydd cyngor neu swyddfeydd y post. Nid yw cyfeiriad preifat yn briodol fel arfer; ond gallai fod yn dderbyniol mewn achosion eithriadol iawn lle bo anheddau mewn cymuned anghysbell yn unig, yn hytrach nag mewn mannau lle mae adeiladau cyhoeddus.

- Ni all y dyddiad cau ar gyfer ysgrifennu atom fod yn fwy na llai na 28 diwrnod o ymddangosiad yr hysbysiad. Yn achos sefydliadau rydych yn ysgrifennu atoch, mae'n rhaid sicrhau eu bod yn derbyn yr hysbysiad o leiaf 28 diwrnod cyn y dyddiad cau.
- Gallwn gynnig cyngor ar ddrafftio'r hysbyseb, gan gynnwys p'un a yw defnyddio cyfeiriad preifat ar gyfer archwilio'r cais yn dderbyniol, ond chi fydd yn gyfrifol am ddisgrifio'r tiroedd.

Mae'n rhaid i'r hysbysiad:

- gael ei hysbysebu mewn prif bapur newydd lleol sy'n cael ei gylchredeg yn yr ardal lle y mae'r tir i'w ryddhau a'r tir amnewid wedi'u lleoli;
- cael ei anfon at yr holl sefydliadau a'r unigolion a restrir yn Adran I y ffurflen gais, gan ddefnyddio'r llythyr yn **Atodiad C**;
- cael ei arddangos wrth y prif fannau mynediad i'r tir comin a'r tir amnewid. Os nad oes manau o'r fath ar gael, mae'n rhaid i'r hysbysebion gael eu harddangos mewn manau amlwg ar derfynau'r tiroedd;
- cael ei arddangos yn y man archwilio ynghyd â'r cais a'r map.

Gallwch ddewis hefyd i anfon yr hysbysiad at gyrff eraill â buddiant yn y tir neu yn ei fflora a ffawna (er enghraifft, yr Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt, y Fforwm Mynediad Lleol, Cymdeithas y Cerddwyr, cymdeithas amwynderau lleol). Mae'n bosibl y byddwch yn ymwybodol o gyrff a fyddai'n elwa ar gael copi o'r hysbysiad o ganlyniad i'r broses ymgynghori anffurfiol.

Mae'n rhaid i chi ymgynghori â'r holl gominwyr sy'n hysbys. Mae'n ofynnol i chi ysgrifennu at ddeiliad unrhyw eiddo a ddangosir ar y gofrestr tiroedd comin sydd â hawliau comin ynghlwm wrtho, ac unrhyw un arall sydd â hawl i arfer hawliau, **os** credwch fod yr hawliau hynny'n cael eu hymarfer neu fod y cais yn debygol o effeithio arnynt. Lle bo'n ymarferol, dylech ysgrifennu at ddeiliaid yr holl eiddo ar y gofrestr, ond cydnabyddwn na fydd hyn bob amser yn ymarferol lle mae nifer fawr o hawliau wedi'u cofrestru.

Mae'n rhaid i chi ysgrifennu atom, cyn gynted â phosibl gan ddefnyddio'r llythyr yn **Atodiad D**, er mwyn cadarnhau eich bod wedi bodloni'r gofynion hysbysebu. Ni fyddwn yn gallu parhau i ystyried eich cais hyd nes y byddwn yn cael y cadarnhad hwn gennyh chi.

Nodyn 24

Os bydd gwrthwynebiadau neu sylwadau, byddwn yn anfon copiau ohonynt atoch ac yn gofyn am eich sylwadau o fewn terfyn amser penodol. Yna mae'n bosibl y byddwn yn dod i'r casgliad ein bod yn gallu gwneud penderfyniad wedi'i seilio ar dystiolaeth ysgrifenedig ac ymweliad safle'n unig, neu fod angen ymchwiliad cyhoeddus neu wrandawriad. Os na fydd unrhyw wrthwynebiadau (neu fawr ddim ohonynt), mae'n fwy tebygol y caiff penderfyniad ei wneud ar sail y dystiolaeth ysgrifenedig yn unig (a chanfyddiadau'r ymweliad safle – gweler nodyn 'Arweiniad ar Diroedd Comin – Trosolwg Cyffredinol). Felly mae'n fuddiol i chi fod wedi sicrhau cefnogaeth leol i'ch cais cyn ei gyflwyno. Byddwn yn parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am hyn a helynt eich cais.

Sylwer y gellir datgelu'r dystiolaeth y byddwch yn ei chyflwyno, p'un a yw yn y cais ei hun neu mewn gohebiaeth, i wrthwynebwyr neu i unrhyw un sydd â diddordeb yn y cais ar unrhyw bryd. Felly dylai unrhyw ymatebion y byddwch yn eu rhoi i wrthwynebwyr,

gynnwys sylwadau sy'n berthnasol i'r pwyntiau a godwyd yn unig, heb gynnwys materion eraill na fyddech yn fodlon iddynt gael eu datgelu.

Nodyn 25

Mae'r Gymdeithas Mannau Agored yn ymgyrchu i amddiffyn tir comin, mannau agored a hawliau tramwy cyhoeddus yng Nghymru a Lloegr.

Manylion cyswllt:

Open Spaces Society
25a Bell Street
Henley-on-Thames
Oxfordshire RG9 2BA
Ffôn: 01491 573535
Ffacs: 01491 573051
E-bost: hq@oss.org.uk

ADRAN J – Mapiau

Nodyn 26

Rhowch ddau **gopi sydd yr un fath** o fap diweddar gyda'ch cais. Mae hyn yn ogystal â map y gofrestr, y mae'n rhaid i chi anfon copi ohono atom hefyd (gweler **Nodyn 2**). O ran map y cais:

- Mae'n **hanfodol** bod y map yn gywir, oherwydd os bydd eich cais yn llwyddiannus, caiff ei atodi i'r Gorchymyn a'i ddefnyddio gan awdurdod cofrestru'r tiroedd comin i ddiwygio'r gofrestr tiroedd comin;
- Dylai'r map gael ei seilio ar rifynnau diweddaraf Taflenni'r Arolwg Ordnans ac ar raddfa heb fod yn llai na 1:2,500 os yw ar gael a heb fod yn llai na 1:10,000 os nad oes unrhyw ddewis arall ar gael ac os yw'r map yn ddigon clir (neu os nad yw'r tir comin wedi'i fapio gan yr Arolwg Ordnans ar raddfa o 1:2,500);
- Dylid canfod arwynebeddau, hydoedd a safleoedd na roddir yn y manylion ysgrifenedig drwy eu mesur ar y tir a'u rhoi ar y map. Cyn belled ag y bo'n bosibl, dangoswch fesuriadau o'r ymylon ar hyd pob darn o dir. Dylech sicrhau bod graddfa'r map yn glir, fel y gallwn wirio mesuriadau'r tiroedd i'w rhyddhau a'r tiroedd amnewid;
- Yn ddelfrydol, dylid dangos y tiroedd y cyfeirir atynt yn Adran A ac Adran B y ffurflen gais ar yr un map ac mae'n rhaid eu dangos gydag ymylon coch a gwyrdd y naill ar ôl y llall (h.y. tir i'w ryddhau ag ymylon COCH a thir i'w amnewid ag ymylon GWYRDD golau). Dylai'r map hwn ddangos (mewn GWYRDD TYWYLL) terfyn y tir comin hefyd mewn perthynas â'r tir i'w ryddhau a thiroedd amnewid (mae manylion am derfyn y tir comin ar fap y gofrestr);
- Os nad oes modd dangos y tiroedd ar un map, ar raddfa 1:2,500 oherwydd eu pellter oddi wrth ei gilydd, dangoswch y tiroedd ar fapiau ar wahân ar y raddfa honno a rhoi trydydd map ar raddfa lai'n dangos yr holl diroedd dan sylw;

- Dylai pob map ddangos o leiaf enw dwy ffordd neu nodweddion eraill er mwyn caniatáu i'r safle gael ei adnabod yn hawdd.

ADRAN K – Ymchwiliad cyhoeddus neu wrandawriad

Nodyn 27

Ni chynhelir ymchwiliad neu wrandawriad ym mhob achos sy'n cynnwys ceisiadau yn unol ag adran 16. Lle bo angen, mae'n arferol cynnal y rhain mewn neuaddau cyhoeddus, adeiladau'r cyngor, siambrau neu ystafelloedd pwyllgor y cyngor, a chynhelir rhai ohonynt mewn gwestai, ysgolion, theatrau ac ati. Fel arfer, bydd rhaid i'r lleoliad a ddewisir fod yn unol â gofyniad ein nodyn Cyfleusterau Lleoliadau Ymchwiliadau. Dyma'r ddolen i'r nodyn:

http://www.planningportal.gov.uk/uploads/pins/venue_and_facilities_for_publicinquiries_and_hearings.pdf

Dylai ymgeiswyr ddefnyddio eu gwybodaeth leol, ac adborth a geir o'u hymgyngoriadau anffurfiol, i farnu lefelau gwrthwynebu/cefnogi ar gyfer eu cynnig. Dylai'r lleoliad fod yn ddigon mawr i ddal yn gyfforddus y bobl y disgwylir iddynt fod yn bresennol. Nid yw lleoliadau mawr yn ddymunol ar gyfer gwrandawriad neu ymchwiliad lle nad oes disgwyl i lawer o bobl fod yn bresennol. Yn yr un modd, mae lleoliadau bach yn amhriodol ar gyfer ymchwiliadau sy'n denu llawer o ddiddordeb cyhoeddus. Ni ddylai'r lleoliad gael ei effeithio gan sŵn neu dwrw arall sy'n gysylltiedig â gweithgareddau mewn rhannau eraill o'r adeilad neu'r ardal o'i gwmpas e.e. cylchoedd chwarae, chwaraeon a gemau, gwaith adeiladu, ac ati.

3. Cwynion ac Adolygiad Barnwrol

Cyflwyno cwyn i ni

Os oes gennych gŵyn am y ffordd yr ymdrinnir neu yr ymdriniwyd â'ch cais, naill ai gan yr Arolygydd neu gan ein Swyddog Achos, dylech gysylltu â'r Swyddog Cwynion :

Y Swyddog Cwynion
Yr Arolygiaeth Gynllunio
Adeiladau'r Goron
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 029 2082 3889

E-bost: wales@pins.gsi.gov.uk

Ymchwilir i'ch cwyn yn deg a gallwch ddisgwyl ateb o fewn tair wythnos fel arfer. Os bu camgymeriad, byddwn yn esbonio hyn ac yn ymddiheuro, ond nid yw'r gyfraith yn caniatáu i ni newid y penderfyniad mewn unrhyw ffordd.

Gallwch gael mwy o wybodaeth am ein gweithdrefnau cwyno ar ein gwefan:

www.planningportal.gov.uk/uploads/pins/row/complaints_leaflet.pdf

Yr Uchel Lys

Unwaith y caiff penderfyniad ar gais ei gyhoeddi, nid oes gennym y pŵer i'w ddiwygio neu ei newid. Yr unig ffordd y gellid adolygu penderfyniad yw yn sgil adolygiad barnwrol llwyddiannus.

Rhaid i chi wneud cais am adolygiad barnwrol i'r Uchel Lys yn brydlon ac yn bendant heb fod yn hwyrach na 3 mis o ddyddiad y penderfyniad. I fod yn llwyddiannus, byddai'n rhaid i chi ddangos:

- bod y sawl a wnaeth y penderfyniad wedi mynd y tu hwnt i'w b/phwerau; neu
- na fodlonwyd meini prawf sy'n berthnasol i'r cais a bod hyn wedi niweidio eich buddiannau.

Dylech wneud cais i'r:

Llys Gweinyddol
Canolfan Cyfiawnder Sifil Caerdydd
2 Stryd y Parc
Caerdydd
CF10 1ET
Ffôn: 029 2037 6400
Gwefan: www.courtservice.gov.uk

Os dymunwch wneud hyn, mae'n bosibl y byddwch am ystyried cael cyngor gan gyfreithiwr neu'r Ganolfan Cyngor ar Bopeth.

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Os credwch eich bod wedi cael eich trin yn annheg oherwydd nad ydym ni neu'r Arolygydd wedi gwneud ein gwaith yn gywir, gallwch gysylltu ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Nid oes gan yr Ombwdsmon bŵer i amau teilyngdod cais na newid y penderfyniad. Mae a wnelo ef â'r ffordd y deliwn â cheisiadau a'u prosesu yn unig. Ni fydd yr Ombwdsmon yn ymchwilio fel arfer, oni bai eich bod wedi cyflwyno cwyn i ni yn y lle cyntaf.

Gallwch gysylltu â'r Ombwdsmon:
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
1 Ffordd Yr Hen Gae
Pencoed
CF35 5LJ
Ffôn: 01656 641150 (pris galwad lleol)
E-bost: ask@ombudsman-wales.org.uk
Gwefan: www.ombudsman-wales.org.uk

Y Cyngor Tribiwnlysoedd

Os oes gennych gŵyn am y weithdrefn a ddefnyddiom ar gyfer cais, gallwch gwyno i'r Cyngor Tribiwnlysoedd (nid oes gan y Cyngor Tribiwnlysoedd y pŵer i amau teilyngdod y cais na newid y penderfyniad). Dyma'r cyfeiriad:
Council on Tribunals
81 Chancery Lane
London
WC2A 1BQ
Gwefan: www.ajtc.gov.uk

Gallwch gael mwy o wybodaeth am herio penderfyniad yn yr Uchel Lys ar ein gwefan:<http://www.planningportal.gov.uk/>

4. Sut y defnyddiwn eich Gwybodaeth Bersonol

Os byddwch yn cymryd rhan mewn apêl, bydd y math o wybodaeth bersonol a geir yn eich sylwadau yn cynnwys eich enw, eich manylion cyswllt fel arfer ac unrhyw wybodaeth bersonol arall y byddwch yn penderfynu ei rhoi.

Rydym yn defnyddio'r wybodaeth a roddwch i brosesu'r apêl, ac mae hyn yn cynnwys sicrhau bod eich sylwadau ysgrifenedig ar gael i'r apelydd, yr awdurdod cynllunio lleol a phartïon statudol eraill.

Rydym yn cyhoeddi dogfennau apêl a sylwadau, gan gynnwys enwau a chyfeiriadau, ar y Porth Cynllunio. Caiff rhifau ffôn, rhifau ffacs a chyfeiriadau e-bost eu dileu cyn cyhoeddi. Rydym hefyd yn cyhoeddi penderfyniad yr arolygydd.

Mae'r arweiniad yn y daflen hon yn esbonio'r broses apelio'n fanylach ac fe'ch cynghorir i ddarllen y daflen hon cyn rhoi unrhyw sylwadau. Am ragor o fanylion, gweler ein datganiad preifatrwydd:

www.planningportal.gov.uk/planning/appeals/online/about/privacystatement=cy

Os bydd gennych unrhyw ymholiadau mewn perthynas â'n defnydd o wybodaeth bersonol, cysylltwch â ni yn y cyfeiriad isod.

Rhagor o wybodaeth

Mae rhagor o wybodaeth am ein polisi preifatrwydd ar gael ar gais neu ar ein gwefan:

<http://www.planningportal.gov.uk/planning/appeals/planninginspectorate>

Os oes gennych unrhyw ymholiadau am ein polisi, neu os hoffech wneud cais am eich data personol, cysylltwch â ni yn y cyfeiriad isod:

Cysylltu â ni

Yr Arolygiaeth Gynllunio

Adeiladau'r Goron

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 029 2082 3866

Ffacs: 029 2082 5150

E-bost: wales@pins.gsi.gov.uk

Atodiad A
Ffurfi ar Hysbysiad ar gyfer hysbysebu eich cynigion

Adran 16 Deddf Tiroedd Comin 2006

Datgofrestru arfaethedig tir comin/maes pentref yn:

..... **TIR COMIN/MAES PENTREF***
*(rhowch rif cofrestru'r uned TC/MP) Cymuned/Tref**

.....
Bwrdeistref/Bwrdeistref Sirol/Dinas/Sir*

1. Hysbysir drwy hyn fod [*a rhowch enwau unrhyw gydymgeiswyr*] wedi gwneud cais i Weinidogion Cymru o dan adran 16 Deddf Tiroedd Comin 2006 o ran tir sy'n ffurfio rhan o'r tir comin/maes pentref* cofrestredig a grybwyllwyd uchod ("y tir i'w ryddhau") i ddod â'r cofrestrriad i ben.
2. Pwrpas y cais hwn yw galluogi [*rhowch fanylion y prosiect*] [*Os caiff tir amnewid ei gynnig:*]
3. Y cynnig yw i'r tir (y "tir amnewid") gael ei gofrestru fel tir comin/maes pentref* yn lle'r tir i'w ryddhau.
4. 4. Disgrifir y tir i'w ryddhau yn yr Atodlen Gyntaf i'r hysbysiad hwn, [*a disgrifir y tir amnewid yn yr Ail Atodlen*]. Ar y cynllun y cyfeirir ato ym mharagraff 5 isod, dangosir y tir i'w ryddhau ag ymylon coch, [*dangosir y tir amnewid ag ymylon gwyrdd golau,*] a dangosir terfyn y tir comin/maes pentref" ag ymylon gwyrdd tywyll.
5. Gellir archwilio copi o'r ffurflen gais a chynllun yn dangos yn lleoliad y tiroedd yn rhwng 10am a 4pm yn ystod yr wythnos (nid gwyliau cyhoeddus) tan diwrnod o20..... (*Rhowch ddyddiad o leiaf 28 diwrnod ar ôl i'r hysbysiad ymddangos yn y papur newydd*). Gellir cael copi o'r cais drwy ysgrifennu at [*rhowch y cyfeiriad*].
6. Dylid anfon unrhyw wrthwynebiadau neu sylwadau mewn perthynas â'r datgofrestru arfaethedig [*a chyfnwid*] yn ysgrifenedig AR neu CYN y dyddiad hwnnw i: Arolygiaeth Gynllunio Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ neu Wales@pins.gsi.gov.uk
7. **Ni ellir trin** llythyrau sy'n cael eu hanfon i Arolygiaeth Gynllunio Cymru fel rhai **cyfrinachol**. Cânt eu copïo i'r ymgeisydd ac o bosibl i bartion eraill â buddiant.

ATODLEN GYNTAF
(Y tir i'w ryddhau)

AIL ATODLEN
(Y tir i'w amnewid)

(Rhowch enw a chyfeiriad y sawl sy'n gwneud y cais) (Rhowch ddyddiad)

** dilëer fel y bo'n briodol*

Atodiad B
Enghraifft o Hysbysiad (enghraifft yn unig)

Adran 16 Deddf Tiroedd Comin 2006

Datgofrestru arfaethedig o ran tir comin yn:
TIR COMIN MAES-GLAS (CL 123)
Cymuned Blackford
Bwrdeistref Eglwys-wen
Sir Gogledd Morgannwg

1. Hysbysir drwy hyn fod Cyngor Sir Gogledd Morgannwg wedi gwneud cais i Weinidogion Cymru o dan adran 16 Deddf Tiroedd Comin 2006 o ran tir sy'n ffurfio rhan o'r tir comin/maes pentref* cofrestredig a grybwyllwyd uchod ("y tir i'w ryddhau") i ddod â'r cofrestriad i ben.
2. Pwrpas y cais hwn yw caniatáu adeiladu mannau swyddfa ychwanegol a pharcio cysylltiedig ar y tir i'w ryddhau (cais cynllunio cyf W/106/12345).
3. Cynigir bod y tir (y "tir amnewid") yn cael ei gofrestru fel tir comin yn lle'r tir i'w ryddhau.
4. Disgrifir y tir i'w ryddhau yn yr Atodlen Gyntaf i'r hybysiad hwn, a disgrifir y tir amnewid yn yr Ail Atodlen. Ar y cynllun y cyfeirir ato ym mharagraff 5 isod, dangosir y tir i'w ryddhau ag ymylon coch, dangosir y tir amnewid ag ymylon gwyrdd golau, a dangosir y terfyn y tir comin ag ymylon gwyrdd tywyll.
5. Gellir archwilio copi o'r ffurflen gais a chynllun yn dangos lleoliad y tiroedd yn Swyddfa Post y Coed-duon, Stryd Fawr, Blackford rhwng 10:00 am a 4:00 pm yn ystod yr wythnos (nid gwyliau cyhoeddus) tan 25 Mai 2008.
6. Dylid anfon gwrthwynebiadau neu sylwadau mewn perthynas â'r datgofrestru a'r cyfnewid arfaethedig yn ysgrifenedig AR neu CYN y dyddiad hwnnw i: Arolygiaeth Gynllunio Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ neu Wales@pins.gsi.gov.uk
7. **Ni ellir trin** llythyrau sy'n cael eu hanfon i Arolygiaeth Gynllunio Cymru fel rhai **cyfrinachol**. Cânt eu copïo i'r ymgeisydd ac o bosibl i bartïon eraill â buddiant.

ATODLEN GYNTAF

(Y tir i'w ryddhau)

2000 o fetrau sgwâr o dir yn ffurfio rhan o Dir Comin Maes-glas (Uned Gofrestr CL 123), Eglwys-wen, Gogledd Morgannwg, wedi'i leoli yng nghornel gogledd-orllewin y tir comin, 200 metr i'r gorllewin o ardal chwarae'r plant, ag ymylon coch ac â llythrennau A, B, C a D ar y cynllun y cyfeirir ato ym mharagraff 5 uchod.

AIL ATODLEN

(Y tir i'w amnewid)

2250 o fetrau sgwâr o dir wedi'i leoli i'r gogledd o derfyn Tir Comin Maes-glas, ac sy'n cyffinio ag ef, sy'n cael ei alw'n "Erwau Maes-glas" ac ag ymylon gwyrdd golau ac â llythrennau E, F, G a H ar y cynllun y cyfeirir ato ym mharagraff 5 uchod.

Mr J Smith
Cyngor Sir Gogledd Morgannwg
Adran yr Amgylchedd
Neuadd y Sir
Stryd Fawr
Eglwys-wen
Gogledd Morgannwg
NGH1 2WE

26 Ebrill 2008

Atodiad C

FFURF AR LYTHYR I'W ANFON AT YMGYNGOREION YN AMGÁU COPI O'R HYSBYSIAD DRAFFT (Caniatewch 5 diwrnod rhag ofn bod oedi o ran y post)

DEDDF TIROEDD COMIN 2006 – ADRAN 16

Rwyf i/Rydym ni* yn gwneud cais i Weinidogion Cymru o dan adran 16 Deddf Tiroedd Comin 2006 i ddatgofrestru ardal [Enw] Tir Comin/Maes Pentref [ac i ddarparu tir amnewid yn gyfnewid am y tir i'w ddatgofrestru]. Mae'n ofynnol i mi/ni* eich hysbysu am ein cynigion ac rwyf/rydym* yn anfon copi atoch o'r hysbysiad atodedig er mwyn cydymffurfio â'r gofyniad hwnnw.

Mae Adran 16 Deddf Tiroedd Comin 2006 yn galluogi perchennog y tir sydd wedi'i gofrestru fel tir comin neu faes tref neu faes pentref i wneud cais i Weinidogion Cymru am y tir neu ran o'r tir i'w ryddhau o'i gofrestrriad. Os oes arwynebedd o fwy na 200 metr sgwâr i'r "tir i'w ryddhau", mae'n rhaid gwneud cais ar yr un pryd i gofrestru "tir amnewid" fel tir comin neu faes pentref yn ei le. Os yw'r tir i'w ryddhau'n llai na 200 metr sgwâr, gellir cynnwys cynnig am dir amnewid (ond nid oes angen gwneud hynny).

Seilir penderfyniad Gweinidogion Cymru ar deilyngdod y cynnig a bydd yn cydbwysu'r holl fuddiannau yn y tir comin, gan ystyried yr holl farnau a fynegir. Rhaid rhoi ystyriaeth i'r meini prawf a esbonnir yn adran 16 y Ddeddf. Mae'r rhain fel a ganlyn:

(a) buddiannau'r rhai sydd â hawliau mewn perthynas â'r tir i'w ryddhau neu sy'n preswyllo arno (ac, yn benodol, unigolion sy'n ymarfer hawliau tir comin arno);

(b) buddiannau'r gymdogaeth;

(c) buddiant y cyhoedd, sy'n cynnwys buddiant y cyhoedd mewn:

- cadwraeth natur
- cadwraeth y tirlun
- diogelu hawliau mynediad y cyhoedd i unrhyw ran o'r tir, a
- diogelu olion a nodweddion archeolegol o ddiddordeb hanesyddol;

(ch) unrhyw fater yr ystyrir ei fod yn berthnasol.

Ystyrir y meini prawf hyn yn sgil y prif nod o ddiogelu, cynnal neu wella'r tir comin, a sicrhau nad yw maint cyffredinol y tir comin yn gostwng. Bydd hyn yn galluogi diogelu amrywiaeth a maint cyffredinol y tir comin.

Dylid anfon unrhyw wrthwynebiadau neu sylwadau ynghylch y cynnig i Arolygiaeth Gynllunio Cymru erbyn y dyddiad cau a bennir yn yr hysbysiad.

* *dilëer beth bynnag sydd ddim yn berthnaso*

Atodiad D

FFURF AR LYTHYR I CHI EI ANFON ATOM YN CADARNHAU Y BODLONWYD Y
GOFYNION HYSBYSEBU

DEDDF TIROEDD COMIN 2006 – ADRAN 16

Yn dilyn fy nghais dyddiedig (*rhowch y dyddiad*), cyfeirnod (*os gwyddoch beth ydyw*), ysgrifennaf i gadarnhau y bodlonwyd y gofynion hysbysebu a bennir yn Adran I y ffurflen gais a'r nodiadau arweiniad cysylltiedig.

Cadarnhaf fy mod wedi:

A. cyhoeddi'r hysbysiad yn (*rhowch enw'r prif bapur newydd lleol y cyhoeddwyd yr hysbysiad ynddo*) ar (*rhowch ddyddiad yr hysbysiad*).
Amgaeaf gopi o'r hysbysiad yn y papur newydd. (*Dylid cynnwys y ddalen gyfan, gan gynnwys yr hysbysiad ei hun, ond hefyd yn dangos enw a dyddiad y papur newydd.*)

B. anfon llythyr yn seiliedig ar yr un yn Atodiad C* at yr holl rai a restrir yn Adran I y ffurflen gais. **Atodaf gopi o'r llythyr a anfonwyd.**
Ymgynghorwyd â'r rhai a restrir fel a ganlyn:

(rhestrwch yr holl rai yr ymgynghoroch â nhw, gan gynnwys, ar gyfer sefydliadau, enw'r cyswllt)

C. postio'r hysbysiad yn y prif fannau mynediad i'r tir comin (*neu, os nad oes rai, mewn man amlwg ar y safle*), a byddaf yn ei gadw yno tan ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu.

D. gosod copi o'r cais cyflawn, gan gynnwys yr hysbysiad a'r map, yn y man archwilio a roddir yn yr hysbysiad. Bydd y dogfennau hynny yn parhau yno tan ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu.

Atodiad E

Deddf Tiroedd Comin 2006 (c.26) *Rhan 3 - Gwaith*

16 Datgofrestru a chyfnewid: ceisiadau

- (1) Gall perchennog unrhyw dir sydd wedi'i gofrestru fel tir comin neu fel tref neu faes pentref wneud cais i'r awdurdod cenedlaethol priodol ynghylch y tir ("y tir i'w ryddhau") er mwyn dod â'r cofrestriad i ben.
- (2) Os oes arwynebedd o fwy na 200 metr sgwâr i'r tir i'w ryddhau, mae'n rhaid i'r cais gynnwys cynnig o dan is-adran (3).
- (3) Mae cynnig bod y tir a nodir yn y cais ("tir amnewid") yn cael ei gofrestru fel tir comin neu faes tref neu faes pentref yn lle'r tir i'w ryddhau yn gynnig o dan yr is-adran hon.
- (4) Os nad oes arwynebedd o fwy na 200 metr sgwâr i'r tir i'w ryddhau, gall y cais gynnwys cynnig o dan is-adran (3).
- (5) Lle bo'r cais yn cynnwys cynnig o dan is-adran (3)—
 - (a) mae'n rhaid i'r tir amnewid fod yn dir y mae'r Rhan hon yn berthnasol iddo;
 - (b) ni all y tir amnewid fod wedi'i gofrestru'n barod fel tir comin neu fel maes tref neu faes pentref; ac
 - (c) os nad yw perchennog y tir i'w ryddhau yn berchen ar y tir amnewid, mae'n rhaid i berchennog y tir amnewid ymuno yn y cais.
- (6) Wrth benderfynu ar y cais, bydd yr awdurdod cenedlaethol priodol yn ystyried—
 - (a) buddiannau'r unigolion sydd â hawliau, mewn perthynas â'r tir i'w ryddhau, neu fod yn ei feddiannau (ac yn benodol, pobl sydd â hawliau comin drosto);
 - (b) buddiannau'r gymdogaeth;
 - (c) buddiant y cyhoedd;
 - (ch) unrhyw fater arall yr ystyrir ei fod yn berthnasol.
- (7) Mewn achosion lle—
 - (a) nad oes i'r tir i'w ryddhau arwynebedd o fwy na 200 metr sgwâr, ac
 - (b) nad yw'r cais yn cynnwys cynnig o dan is-adran (3),

bydd yr awdurdod cenedlaethol priodol yn rhoi ystyriaeth benodol yn unol ag is-adran (6) i ba raddau y mae absenoldeb cynnig o'r fath yn niweidiol i'r buddiannau a nodir ym mharagraffau (a) i (c) yn yr is-adran honno.

(8) Mae'r cyfeiriad yn is-adran (6)(c) at fuddiant y cyhoedd yn cynnwys buddiant y cyhoedd o ran—

- (a) cadwraeth natur;
- (b) cadwraeth y tirlun;
- (c) diogelu hawliau mynediad y cyhoedd i unrhyw ardal o dir; a
- (ch) diogelu olion archeolegol a nodweddion o ddiddordeb hanesyddol.

(9) Gellir gwneud cais yn unol â'r adran hon yn unig gyda chaniatâd unrhyw lesddeiliad perthnasol, a pherchennog unrhyw bridiant perthnasol mewn perthynas â'r canlynol—

- (a) y tir i'w ryddhau;
- (b) unrhyw dir amnewid.

(10) Yn is-adran (9) mae i "pridiant perthnasol" a "lesddeiliad perthnasol" yr ystyron a roddir yn adran 15(10).